# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 2

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

*Gorfodi*

PROSPECTIVE

### 49 Hysbysiadau cosb benodedig

(1) Pan fo gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 38(2), (4) neu (5) yn ardal yr awdurdod lleol, caiff y swyddog roi i'r person hwnnw hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â'r drosedd.

(2) Mae hysbysiad cosb benodedig yn hysbysiad sy'n cynnig y cyfle i berson i gael ei ryddhau o fod yn agored i euogfarn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi drwy dalu cosb benodedig.

(3) Yn achos trosedd y mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at y person y caniateir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo i gael ei drin fel cyfeiriad at y bartneriaeth.

(4) Yn achos trosedd y mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu ei bod wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at y person y caniateir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo i gael ei drin fel cyfeiriad at y gymdeithas.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "partneriaeth" yw—

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 49 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaeth 1890 (p.39), neu
(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p.24).

(6) Am ddarpariaeth bellach ynghylch cosbau penodedig, gweler Atodlen 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 49 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 49 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2